



severn dee

# Cynllun Sychder Hafren Dyfrdwy 2020 – 2025

---

## Crynodeb Gweithredol

Yn y Cynllun Sychder Drafft hwn, mae Hafren Dyfrdwy yn amlinellu'i ymagwedd tuag at reoli'i gyflenwadau o ddŵr i'w gwsmeriaid yn ystod cyfnod o sychder. Mae'r Cynllun Sychder Drafft hwn wedi'i baratoi ar sail y canllawiau a gynhwysir yng Nghanllaw Technegol Cynllun Sychder Cwmni Dŵr Cyfoeth Naturiol Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr, 2017 a'r nodiadau cyfarwyddyd cysylltiedig. Mae'r Cynllun hwn yn darparu trosolwg cynhwysfawr ar y sbardunau a'u gweithredoedd rheoli sychder cyfatebol a weithredir petai yna sychder.

## Crynodeb Gweithredol

### Rhagymadrodd

Mae Hafren Dyfrdwy yn gwmni dŵr a dŵr gwastraff sy'n darparu tua 58 miliwn litr o ddŵr y dydd i boblogaeth o oddeutu 220,000 yn ardal canolbarth a gogledd-ddwyrain Cymru. Mae ein cwsmeriaid yn cynnwys oddeutu 97,000 o gwsmeriaid aelwydydd ac 8,000 o gwsmeriaid busnes. Daeth Dŵr Dyffryn Dyfrdwy yn rhan o grŵp Hafren Trent ym mis Chwefror, 2017. Gwnaethom lansio'n henw newydd, Hafren Dyfrdwy, ar y 1<sup>af</sup> o Orffennaf, 2018 ar ôl cymeradwyaeth Ofwat i gysoni ffiniau Hafren Trent a Dŵr Dyffryn Dyfrdwy â ffiniau cenedlaethol Cymru a Lloegr.

Ein nod yw cynnal cyflenwad cyson o ddŵr iachusol sy'n rhoi gwerth da am arian i gwsmeriaid yn ystod gweithredu normal ac yn ystod sefyllfa o sychder, fel ei gilydd. Nid yn unig y mae hyn yn un o'r rhwymedigaethau statudol, ond mae hefyd yn rhywbeth y mae ein hymchwil wedi'i ddangos sy'n rhywbeth y mae ein cwsmeriaid yn ei ddisgwyl.

Dyma fersiwn ddrafft o gynllun sychder statudol Hafren Dyfrdwy. Mae'n ddiweddariad i'r cynllun y gwnaethom ei gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2015. Rydym yn cynhyrchu cynlluniau sychder i egluro sut y gwnawn reoli cyflenwadau a galw am ddŵr yn ystod sychder yn ein rhanbarth. Nod ein cynllun yw cydbwysu buddiannau cwsmeriaid, yr amgylchedd a'r economi mwy cyffredinol. Mae'r cynllun yn ein helpu ni a'n rhanddeiliaid i wneud y penderfyniadau cywir ar yr adeg gywir, ac mae'n dangos sut y gwnawn ddarparu cyflenwad di-dor o ddŵr i'n cwsmeriaid yn ystod sychder. Mae rhan o'r Cynllun Sychder yn cynnwys ymgynghori â'n cwsmeriaid a phrif randdeiliaid eraill ynglŷn â sut y bwriadwn reoli'r gwasanaeth rydym yn ei ddarparu yn ystod sefyllfa o sychder.

Tuag at ran olaf 2018, fe wnaethom gynnal proses 'cyn ymgynghori' â'n prif randdeiliaid i ofyn iddynt am eu barn ynglŷn â'n cynllun blaenorol fel ein bod yn gallu defnyddio'r rhain i lunio ac i wella'n Cynllun Sychder newydd. Ar ôl y broses 'cyn ymgynghori', fe wnaethom baratoi Cynllun Sychder drafft i ymgorffori'r sylwadau a dderbyniasom a diweddariadau eraill.

Ym mis Gorffennaf 2019, fe gyhoeddwyd y Cynllun Sychder drafft ar ein gwefan ar gyfer rhagor o ymgynghori. Y tro hwn, roedd y broses ymgynghori'n llawer ehangach, fe wnaethom anfon e-byst a chyhoeddi datganiadau i'r wasg yn gofyn i gwsmeriaid a rhanddeiliaid adolygu'n cynllun ac ymateb â'u sylwadau.

Yng ngoleuni'r atebion a dderbyniasom i'r ymgynghoriad, fe wnaethom rai newidiadau ac fe wnaethom ailgyhoeddi'n Cynllun Sychder drafft. Gwnaethom hefyd gyhoeddi rhestr o'r sylwadau a dderbyniasom, ynghyd â'n hymateb. Diben y newidiadau a wnaethom oedd gwneud y Cynllun yn fwy eglur a manwl, ac nid oedd yr un ohonynt yn ymwneud â gweithrediad y Cynllun. Mae Llywodraeth Cymru yn awr wedi rhoi'u caniatâd inni gyhoeddi'n Cynllun Sychder terfynol, ynghyd â dogfennau ategol.

Mae sychderau'n ddigwyddiadau sy'n digwydd yn naturiol ac ni allwn gynllunio i'w hatal rhag digwydd. Yn hytrach na hynny, fe fwriadwn leihau effeithiau sychderau hyd yr eithaf pan fônt yn digwydd. Mae pob sychder yn wahanol o ran ei ddifrifoldeb, ei raddfa a'i hyd.

O ganlyniad, fe fydd p'un a yw effeithiau unrhyw sychder neilltuol yn canolbwyntio'n bennaf ar yr amgylchedd, ar gyflenwad dŵr cyhoeddus neu ar ddefnyddwyr dŵr eraill yn yr economi ehangach yn dibynnu ar nodweddion unigol pob un sychder.

Mae'r adrannau isod yn darparu trosolwg ar sut y bwriadwn reoli'ch cyflenwadau o ddŵr yn ystod sychder ac ar sut y byddwn yn cyfathrebu'r broses hon â'n cwsmeriaid a rhanddeiliaid eraill.

## Newidiadau ers y Cynllun Sychder diwethaf

Mae yna nifer o welliannau wedi'u gwneud i'r Cynllun Sychder hwn i adlewyrchu newidiadau deddfwriaethol a rheoliadol sydd wedi digwydd ers y cynllun blaenorol, ac i gydymffurfio â'r canllawiau a'r codau ymarfer diweddaraf. Mae'r newidiadau hyn yn cynnwys:

- Diwygiadau i adlewyrchu Canllaw Technegol diweddaraf Cynllun Sychder Cwmni Dŵr Cyfoeth Naturiol Cymru (NRW) a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2017 a'r nodiadau cyfarwyddyd cysylltiedig.
- Diwygiadau i adlewyrchu'r ardal ddaearyddol a gyflenwir gan HAFREN DYFRDWY a'n parthau adnoddau dŵr newydd.
- Diweddariadau i reoli cromliniau ar gyfer ein cronfeydd dŵr ucheldirol ym mharth adnoddau dŵr (WRZ) Wreccsam, a wnaed yn unol â'n Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr (WRMP)<sup>19</sup>.
- Y gwelliant i'n cynllun cyfathrebu arfaethedig. Mae hyn yn rhoi manylion sut y byddwn yn cyfathrebu â'n cwsmeriaid a rhanddeiliaid eraill yn ystod sefyllfa o sychder.
- Diweddariadau i'n Hadroddiad Sgrinio Asesiad Effaith Amgylcheddol Strategol ac Adroddiad Sgrinio Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd i nodi unrhyw effeithiau sydd â'r potensial i fod yn llesteiriol y gall yr opsiynau sychder rydym wedi'u hystyried eu cael ar yr amgylchedd.

Rydym hefyd wedi ehangu'r Crynodeb Gweithredol hwn i wneud ein cynllun yn fwy hygyrch i gynulleidfa ehangach.

## Sbardunau Sychder

Mae trothwyau sychder yn dynodi pan fo sefyllfa o sychder yn datblygu, ac fe'u defnyddir yn ystod camau llunio penderfyniadau i gynorthwyo gyda rheoli sychder. Caiff y trothwyau sychder ar gyfer Parth Adnoddau Dŵr Wreccsam eu pennu gan argaeledd dŵr yn System Stori Afon Dyfrdwy. Felly, fe gaiff y rhan fwyaf o'n gweithredoedd rheoli sychder ym Mharth Adnoddau Dŵr Wreccsam eu pennu gan Gyfarwyddiadau Cyffredinol Afon Dyfrdwy sy'n rheoli System Storio Afon Dyfrdwy. Mae lefelau trothwyau sychder ar gyfer Parth Adnoddau Dŵr Llandinam a Llanwrin wedi'u seilio ar drwydded tynnu dŵr yn ôl yr un gyfradd o'r cyfaint trwyddedig blynyddol cyfunol.

Mae Afon Dyfrdwy yn darparu 61% o'r dŵr y mae arnom ei angen, ac fe gyflenwir y gweddill gan gronfeydd dŵr ucheldirol ym mharth adnoddau dŵr Wreccsam a ffynonellau dŵr daear. Rheolir Afon Dyfrdwy gan Cyfoeth Naturiol Cymru (NRW) gan ddefnyddio cronfeydd dŵr ym mrynau Cymru, yn ôl Cyfarwyddiadau Cyffredinol Dyfrdwy<sup>1</sup>. Ar gyfer sychderau difrifol, mae'r Cyfarwyddiadau Cyffredinol yn diffinio'r sbardunau sychder a'r camau y mae'n ofynnol inni'u cymryd i ymateb i'r sbardunau hyn. Mae'r sbardunau'n gysylltiedig â faint o ddŵr sydd ar gael yn System Storio Dyfrdwy. Wrth i gyflenwadau ostwng, fe gaiff pwyntiau sbarduno'u croesi, sy'n annog cymryd gweithrediadau rheoli sychder.

---

<sup>1</sup> Mae'r Cyfarwyddiadau'n ddarostyngedig i gael eu cymeradwyo gan Bwyllgor Ymgynghorol Dyfrdwy sy'n cynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd, United Utilities, Hafren Dyfrdwy, Dŵr Hafren Trent, Dŵr Cymru Welsh Water, Yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd.

Nid oes gennym unrhyw sbardunau sychder yn gysylltiedig â'n cronfeydd dŵr ucheldirol ym mharth adnoddau dŵr Wrecsam, gan nad ydynt ond yn darparu cyfraniad bychan tuag at y cyflenwad cyffredinol. O'r herwydd, nid ydym yn rhagweld sefyllfa lle y byddai arnom angen cynnal gweithredoedd rheoli sychder oherwydd prinder dŵr yn y ffynonellau hyn.

### Gweithredoedd rheoli sychder

Mae gweithredoedd rheoli sychder yn cynnwys gweithredoedd o ran galw a gweithredoedd o ran cyflenwi, ac fe fydd y sbardunau a drafodir uchod yn pennu sut y cânt eu gweithredu. Mae gweithredoedd o ran galw yn canolbwyntio ar leihau'r galw am ddŵr oddi wrth ein gweithrediadau neu oddi wrth ein cwsmeriaid, tra bod gweithredoedd o ran cyflenwi yn golygu'r camau hynny sy'n cynyddu argaeledd dŵr.

Ar gyfer gweithredoedd o ran galw, fe wnawn gyfathrebu â'n cwsmeriaid yng nghyfnodau cynnar sychder sy'n datblygu, gan gynnal gwaith ychwanegol o hybu arbed dŵr ac annog defnyddio dŵr yn effeithlon.

Rydym yn cydnabod y dylwn ninnau hefyd, os ydym yn disgwyl i'n cwsmeriaid leihau faint o ddŵr y maent yn ei ddefnyddio, wneud ymdrechion cyffelyb i leihau'n lefelau gollyngiadau. Gwnawn hyn drwy gynnal gweithgareddau ychwanegol i ganfod ac atgyweirio gollyngiadau.

Wrth i'r sychder fynd yn fwy difrifol, efallai y bydd yn rhaid inni gyflwyno Gwaharddiadau Dros Dro ar Ddefnyddio Dŵr ac yn y pen draw, wneud cais am Orchmynion Sychder mewn sefyllfaoedd eithafol.

Mae Gwaharddiadau Dros Dro ar Ddefnyddio Dŵr yn bennaf yn cyfyngu ar ddefnyddio dŵr gan gwsmeriaid domestig drwy wahardd pibau dyfrhau a chwistrellwyr, a dyma un o'r camau mwyaf effeithiol a sylweddol sydd ar gael o ran galw. Cyn gweithredu Gwaharddiad Dros Dro ar Ddefnyddio Dŵr, fe wnawn gyhoeddi gwybodaeth i hysbysebu'r gweithredoedd arfaethedig mewn o leiaf dau bapur newyddion sy'n cylchredeg yn yr ardal leol ac ar ein gwefan. Bydd yr hysbysiadau hyn yn rhan o strategaeth gyfathrebu fwy.

Rhestrir y gweithgareddau a waherddir o dan Waharddiadau Dros Dro ar Ddefnyddio Dŵr yn Adran 36 Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010. Y gweithgareddau hyn yw:

- Dyfrhau gardd gan ddefnyddio piben ddyfrhau
- Glanhau cerbyd modur preifat gan ddefnyddio piben ddyfrhau
- Dyfrhau planhigion ar adeiladau domestig neu adeiladau anfasnachol eraill gan ddefnyddio piben ddyfrhau
- Glanhau cwch hamdden preifat gan ddefnyddio piben ddyfrhau
- Llenwi neu gynnal pwll nofio neu bwll padlo domestig
- Tynnu dŵr, gan ddefnyddio piben ddyfrhau, ar gyfer defnydd adloniadol domestig
- Llenwi neu gynnal pwll dŵr domestig gan ddefnyddio piben ddyfrhau
- Llenwi neu gynnal ffynnon addurnol
- Glanhau waliau neu ffenestri adeiladau domestig gan ddefnyddio piben ddyfrhau
- Glanhau llwybrau neu batios gan ddefnyddio piben ddyfrhau
- Glanhau arwynebau awyr agored artiffisial eraill gan ddefnyddio piben ddyfrhau.

Er mwyn osgoi unrhyw ddryswch i'n cwsmeriaid, fe weithredir yr un ar ddeg gweithgaredd uchod mewn un cyfnod sengl.

Gwneir eithriadau i Waharddiadau Dros Dro ar Ddefnyddio Dŵr, yn unol â'r cod ymarfer<sup>2</sup>, ac fe ddônt o dan dri chategori. Y rhain yw:

- Eithriadau Statudol - Nodir y rhain drwy ddeddfwriaeth ac maent ar sail iechyd a diogelwch, yr amgylchedd neu lle y gellir effeithio ar fusnesau.
- Eithriadau Cyffredinol yn ôl Disgresiwn – Maent yn gyffredin i bob cwmni dŵr ac maent yn ymwneud yn bennaf â deiliaid Bathodyn Glas.
- Eithriadau Consesiynol yn ôl Disgresiwn - Cânt eu rhoi gan gwmnïau dŵr unigol ar ôl iddynt dderbyn sylwadau. Mae pob eithriad yn ddarostyngedig i'n disgresiwn ni ac fe gânt ond eu gwneud os ydynt er lles gorau'r gymuned. Byddwn yn ystyried gwneud eithriad i gwsmeriaid ar Restr y cwmni o Gwsmeriaid sy'n Agored i Niwed, Rhestr Sicrwydd Dŵr y cwmni ac i'r rheiny sydd â phroblemau symudedd ond nad ydynt yn berchen Bathodyn Glas. Bydd yr eithriadau hyn yn golygu bod yn rhaid i gwsmeriaid ysgrifennu at, neu wneud sylwadau wrth, Hafren Dyfrdwy i gael caniatâd. Darperir ffurflen i ofyn am eithrio yn Atodiad H – Ffurflen Eithrio rhag Gwaharddiad Dros Dro ar Ddefnyddio Dŵr. Rhoddir mwy o fanylion ynglŷn â sut i wneud sylwadau yn adran 3.3.5.

Nid oes yna broses ffurfiol ar gyfer gwrthwynebu cyfyngiadau o dan Waharddiad Dros Dro ar Ddefnyddio Dŵr. Byddwn ond yn cyflwyno'r mesurau hyn mewn amgylchiadau eithafol iawn pan fo hynny er lles gorau cwsmeriaid a'r amgylchedd, fel ei gilydd. Gellir cyflwyno gwrthwynebiadau fel adolygiad barnwrol o dan y Ddeddf Hawliau Dynol.

Gorchymyn Sychder yw un o'r gweithredoedd mwyaf eithafol o ran galw sydd ar gael inni. Nod y Gorchymyn Sychder yw ymestyn cyfyngiadau sy'n bodoli o dan y Gwaharddiad Dros Dro ar Ddefnyddio Dŵr i gwsmeriaid annomestig. I weithredu Gorchymyn Sychder, mae'n rhaid inni yn gyntaf wneud cais i'r Ysgrifennydd Gwladol ac i Lywodraeth Cymru, a all fod yn broses faith.

Parthed gweithrediadau o ran cyflenwi, dim ond un sydd gennym ar gael inni, sef ategu Afon Dyfrdwy gyda dŵr o'n Cronfa Ddŵr Pen-y-Cae Isaf. Caiff cyfaint y dŵr y byddwn yn ei drosglwyddo i mewn i Afon Dyfrdwy ei bennu gan Gyfarwyddiadau Cyffredinol y Ddyfrdwy, ac maent yn ddibynol ar y sbardun sydd wedi'i groesi.

### Gorfodi Gwaharddiad Dros Dro ar Ddefnyddio Dŵr neu Orchymyn Sychder

Mae Deddf Diwydiant Dŵr 1991 a Deddf Adnoddau Dŵr 1991 yn datgan y gall rhywun a ganfyddir yn euog o dorri Gwaharddiad Dros Dro ar Ddefnyddio Dŵr gael ei ddirwyo hyd at Lefel 3 (swm o £1000 o dan y raddfa safonol o ddirwyon am droseddau diannod yn Neddf Cyfiawnder Troseddol 1982, adran 32). Mae troseddwyr sy'n torri Gorchymyn Sychder yn agored i ddirwy nad yw'n fwy na'r uchafswm statudol (sy'n swm hyd at £5000). Bydd

---

<sup>2</sup> Ymchwil Diwydiant Dŵr y Deyrnas Unedig (UKWIR). 'Cod Ymarfer a Chanllawiau Cyffredinol ar Gyfyngiadau ar Ddefnyddio Dŵr.'

euogfarn ar ddiad yn golygu bod troseddwr yn agored i ddirwy nad oes iddi derfyn uchaf benodedig.<sup>3</sup>

### Strategaeth Gyfathrebu

Rhan hanfodol o'r Cynllun Sychder yw'r strategaeth gyfathrebu rydym yn bwriadu'i dilyn petai yna sychder. Gall cyfathrebu effeithiol helpu i leihau'r galw gan gwsmeriaid, cynyddu'r dŵr sydd ar gael ar gyfer cyflenwi, lleihau'r effaith ar yr amgylchedd ac osgoi dryswch, yn enwedig ynglŷn â pha weithgareddau sy'n ddarostyngedig i gyfyngiadau ar ddefnyddio dŵr.

Petai yna sefyllfa o sychder yn datblygu, mae gennym strwythur rheoli y gwnawn ei roi ar waith i sicrhau y gweithredir y cynllun sychder yn effeithiol, yn cynnwys y strategaeth gyfathrebu. Un o aelodau allweddol y strwythur rheoli yw'r cydgysylltydd cyfathrebbu a fydd yn gyfrifol am sicrhau y cyfathrebu gwybodaeth ar yr adeg briodol gan ddefnyddio'r dulliau priodol a chyda'r rhanddeiliaid perthnasol.

Ar gyfer cwsmeriaid domestig a masnachol, fe fydd y mwyafrif o'n cyfathrebiadau drwy hysbysebion yn y wasg, ar y radio a theledu, yn ein canolfan alwadau i gwsmeriaid, bwletinâu ar ein gwefan, digwyddiadau hyrwyddol, negeseuon testun, taflenni a phosteri. Mae gennym gyfrwng ychwanegol i gyfathrebu â'n cwsmeriaid masnachol mawrion drwy'u rheolwyr cyfrifon. Bydd cwsmeriaid a nodir fel cwsmeriaid sy'n agored i niwed neu Sicrwydd Dŵr yn ein cronfa ddata ynghylch bilio hefyd yn derbyn pecyn gwybodaeth. Cyn gwneud unrhyw gyfathrebu â'n cwsmeriaid domestig a masnachol, fe fyddwn yn cysylltu â'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr, sef y cynrychiolydd annibynnol i gwsmeriaid.

Cysylltir â rhanddeiliaid eraill, megis rheolyddion, grwpiau amgylcheddol a chynrychiolwyr lleol, gan ddefnyddio llythyrau, e-byst neu sgysiau ar y ffôn.

Mae adran 5.3 yn crynhoi'r prif negeseuon cyfathrebu y byddwn yn eu defnyddio petai yna sefyllfa o sychder a sut mae'r rhain yn cyfateb i'r sbardunau sychder a'r gweithredoedd.

### Gweithredoedd ar ôl sychder

Bydd Gwaharddiadau Dros Dro ar Ddefnyddio Dŵr yn dod i ben pan fo'r adnoddau dŵr wedi dychwelyd i'w statws arferol. Er mwyn pennu union gywirdeb hyn, fe roddir ystyriaeth i lefel wirioneddol yr adnoddau ac i'r amgylchiadau tywydd cyffredinol ac a ragamcanir.

Fel gyda gweithredu, fe gyhoeddir dirymiad y cyfyngiadau ar ein gwefan ac mewn dau bapur newyddion lleol, fel y mynnir gan gyfraith gwlad. Byddwn wedyn yn cynnal adolygiad ôl-sychder i bennu pa mor effeithiol oedd y Cynllun Sychder, i ddogfennu'r gwersi a ddysgwyd ac i nodi gwelliannau ar gyfer y dyfodol.

---

<sup>3</sup> Codwyd o ddogfen UKWIR, 'Cod Ymarfer a Chanllawiau Cyffredinol ar Gyfyngiadau ar Ddefnyddio Dŵr'